

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 24 Mehefin 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET** o bell a gynhelir am **10.00 am DYDD MAWRTH, 30 MEHEFIN 2020.**

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Mai 2020 (copi wedi'i amgáu).

**5 YMATEB CYNGOR SIR DDINBYCH I'R CORONAFEIRWS** (Tudalennau 13 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi wedi'i amgáu) yn diweddarau'r Cabinet am reoli effeithiau pandemig y Coronafeirws yn Sir Ddinbych a gogledd Cymru, a cheisio cymeradwyaeth ar y broses i reoli'r adferiad.

**6 ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2019/20)** (Tudalennau 29 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu), yn manylu ar sefyllfa ariannol derfynol y Cyngor ar gyfer 2019/20 a'r argymhellion arfaethedig i ymdrin â chronfeydd wrth gefn a balansau.

**7 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 45 - 64)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**8 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 65 - 68)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans**  
**Bobby Feeley**  
**Huw Hilditch-Roberts**  
**Richard Mainon**

**Tony Thomas**  
**Julian Thompson-Hill**  
**Brian Jones**  
**Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn , Dydd Mawrth, 26 Mai 2020 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Joan Butterfield, Martyn Holland, Alan James, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Barry Mellor, Peter Scott, Glenn Swingler, Joe Welch ac Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Chyllid ac Eiddo (SG), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynnydd Craffu (RE), Partner Busnes TGCh (MJ), Swyddog Cyfathrebu (MJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

Roedd y Newyddiadurwr Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

### MATERION O HYSBYSIAD

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Gwahoddwyd y pleidiau gwleidyddol i enwebu hyd at dri aelod i fynychu fel arsylwyr a gwaddodwyd y Newyddiadurwr Democratiaeth Leol hefyd i arsylwi'r cyfarfod.

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod ffurfiol cyntaf y Cabinet ers dechrau pandemig y Coronafeirws a thynnodd sylw at yr effaith ofnadwy ar bob lefel a dechreuodd y cyfarfod gyda munud o dawelwch i gofio'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am eu gwaith ar y rheng flaen yn Sir Ddinbych mewn amodau anodd iawn ac i ddiolch i'r rhai sydd wedi cael eu hadleoli i ble mae'r angen mwyaf, gan roi sicrwydd i breswylwyr y byddai gwasanaethau a chymorth yn parhau drwy'r argyfwng. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle hefyd i ddiolch i staff am eu hyblygrwydd a'u dewrder dros y misoedd diwethaf.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYD

Ar y pwynt yma ac ar ôl cael ei gwahodd gan yr Arweinydd, gwnaeth y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth y datganiad canlynol -

“Fel Aelod Arweiniol dwi'n bryderus iawn am Coronafeirws a'i effaith sydd bellach i'w weld mewn cartrefi gofal, ysbytai a chymunedau. Er bod y niferoedd yn gostwng yn gyffredinol yng Nghymru, mae pobl dal i fod yn sâl, ac yn anffodus mae rhai yn dal i farw. Rydym ni'n meddwl am y rhai sydd wedi colli rhywun o achos y feirws ofnadwy yma.

Yn anffodus mae niferoedd yr achosion yng ngogledd Cymru, yn cynnwys Sir Ddinbych yn dal i gynyddu. Mae hyn yn rhannol oherwydd mynediad at brofi ac rydym ni'n gweithio gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddysgu mwy am lefelau gwahanol yr haint.

Wedi dweud hynny, mae'r Coronafeirws dal yma ac mae Swyddogion y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth i gartrefi gofal a darparwyr gofal cymdeithasol er mwyn amddiffyn ein preswylwyr mwyaf diamddiffyn.

Fe hoffwn orffen drwy annog pawb i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru -

Aros Gartref – Diogelu'r GIG – Achub Bywydau”.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020.

**Materion yn Codi** – Tudalennau 7 ac 8, Eitem Rhif 6 Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac Eitem Rhif 7 Adroddiad Cyllid – gofynnodd y Cyngorydd Peter Scott gwestiynau am ganlyniadau yn dilyn difrod storm diweddar yn y sir. Dywedodd y Cyngorydd Brian Jones nad oedd y cyfarfod llifogydd oedd wedi'i drefnu gyda'r Prif Weinidog wedi cael ei gynnal, ond mae materion wedi symud ymlaen. Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer prosiectau penodol yn sgil difrod y storm ar draws Sir Ddinbych, yn cynnwys pontydd a phriffyrdd, ac rydym yn aros am ymateb. O ran yr asesiad ar gyfer effeithiau ehangach, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y gwaith oedd wedi'i gynllunio wedi cael ei atal o ganlyniad i Covid 19, ond byddai'n edrych arno eto yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## 5 CYMERADWYAETH GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am ddau Achos Busnes sy'n ymwneud â Chamau Dylunio Cynlluniau Amddiffyniad Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn sydd yn costio dros £1m (100% o grant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru).

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y ddau brosiect sydd wedi'u hariannu trwy grant ac maent wedi'u crynhoi isod -

- Byddai Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn yn darparu safon briodol o amddiffyniad yn erbyn digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd er mwyn gwarchod 2045 o eiddo preswyl a 62 o eiddo nad ydynt yn rhai preswyl, ac amddiffyniad ychwanegol yn erbyn y cynnydd disgwyledig yn lefel y môr dros y ganrif nesaf. Mae angen cymeradwyaeth i ddechrau dylunio a datblygu'r cynllun, ac amcangyfrif o'r gost yw £1,487,180. Gwnaed cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen yma ac mae disgwyl y bydd LIC yn ei ariannu 100%.
- Byddai Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Rhyl yn darparu safon briodol o amddiffyniad yn erbyn digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd er mwyn gwarchod 548 o eiddo preswyl a 33 o eiddo nad ydynt yn rhai preswyl, ac amddiffyniad ychwanegol yn erbyn y cynnydd disgwyledig yn lefel y môr dros y ganrif nesaf. Mae angen cymeradwyaeth i ddechrau dylunio a datblygu'r cynllun, ac amcangyfrif o'r gost yw £2,550,950. Gwnaed cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen yma ac mae disgwyl y bydd LIC yn ei ariannu 100%.

Roedd y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi argymhell cymeradwyo'r ddau brosiect i'r cam dylunio yn unig ar y sail na fyddai yna risg ariannol i'r Cyngor ac na fyddai bwrw ymlaen â'r cam dylunio yn ymrwymo'r Cyngor i'r cam dylunio ac unrhyw gyllid pellach. Byddai angen gwneud penderfyniadau am gyllid yn y dyfodol pan fyddai llawn effaith ariannol pandemig presennol y Coronafeirws yn fwy amlwg, felly roedd hi'n bwysig rheoli disgwyliadau o ran hynny mewn cysylltiad â chynnydd posibl y cynlluniau. Roedd y Cynghorydd Brian Jones yn cefnogi argymhellion yr adroddiad o ystyried y perygl llifogydd presennol a'r amddiffyniad y byddai'n ei roi i breswylwyr a busnesau, roedd o'n credu fod y cynlluniau yn werth am arian o ran y buddsoddiad sydd ei angen.

Roedd y Cabinet yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau er mwyn amddiffyn yn erbyn perygl llifogydd yn y dyfodol ac wedi ystyried argymhellion yr adroddiad yn ofalus o ystyried y cyd-destun presennol.

Yn ystod y drafodaeth a gafwyd gofynnodd y Cynghorodd Mark Young a fyddai'n briodol i fwrw ymlaen i'r cam dylunio ar hyn o bryd o ystyried cost sylweddol y broses (er mai LIC fyddai'n talu) yn yr hinsawdd ariannol bresennol heb unrhyw warant o ddatblygiad yn y dyfodol ac adolygiad i ddod o flaenoriaethau'r Cyngor. Roedd hefyd yn awyddus i sicrhau na fyddai cymeradwyo'r argymhellion yn rhagfarnu unrhyw benderfyniad am y blaenoriaethau hynny yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn cytuno fod yna werth i oedi'r penderfyniad i fwrw ymlaen o ystyried y gwariant sylweddol a diffyg presennol oedd yn arwain at ansicrwydd dros gynnydd yn y dyfodol. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r cam dylunio yn cael ei ariannu'n llawn gan LIC ac nad oedd yna ymrwymiad ar y Cyngor i fwrw ymlaen y tu hwnt i'r cam hwnnw. Byddai'r sefyllfa yn cael ei adolygu ar yr

amser priodol o ran buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol, ond o ystyried graddfa'r buddsoddiad a nifer yr eiddo a fyddai'n elwa, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynlluniau, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gael gafael ar arian grant a fyddai'n cael ei golli fel arall. Fe ychwanegodd y Cynghorydd Brian Jones efallai y bydd modd i LIC ariannu'r cynlluniau'n llawn mewn blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill y byddai'r broses o adolygu blaenoriaethau'n cael ei gynnal yn fuan, ond at ddibenion yr adroddiad roedd hi'n glir nad oedd rhoi cymeradwyaeth i'r cam dylunio yn rhagfarnu'r penderfyniad i fwrw ymlaen ar y sail hwnnw, ac nid oedd yn tybio cymeradwyaeth wrth symud ymlaen. Ni fyddai yna risg i'r Cyngor wrth fwrw ymlaen â'r cynlluniau i'r cam dylunio ac roedd LIC wedi clustnodi arian ar gyfer y pwrpas penodol hwnnw a byddai cymeradwyaeth yn sicrhau fod y Cyngor mewn safle da ar gyfer y cam nesaf os na fydd y cynlluniau'n bwrw ymlaen. Roedd y Cynghorydd Tony Thomas yn cefnogi argymhellion yr adroddiad hefyd, gan dynnu sylw at yr angen i fod yn barod i fynd i'r afael â pherygl llifogydd er lles y cymunedau.

Yn dilyn gwahoddiad gan yr Arweinydd, anerchodd y Cynghorydd Barry Mellor y Cabinet a siaradodd o blaid bwrw ymlaen i'r cam dylunio gan dynnu sylw at y ffaith y gallai pobl farw os nad oes mesurau ar waith i fynd i'r afael â pherygl llifogydd yn y cymunedau hynny cyn gynted â phosibl. Roedd o hefyd yn bryderus y gallai unrhyw oedi yn y broses arwain at golli arian grant allai arwain at gynnydd yng nghostau'r prosiect yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oedd yna risg i'r Cyngor ac nad oedd hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (fel y manylir yn Adran 4.2 yr adroddiad ac Atodiad 1 yr adroddiad), a*
- (b) *cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Rhyl, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oedd yna risg i'r Cyngor ac nad oedd hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (fel y manylir yn Adran 4.3 yr adroddiad ac Atodiad 2 yr adroddiad).*

## **6 ADRODDIAD CYLLID (STRATEGAETH ARIANNOL COVID 19)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn nodi effaith ariannol COVID 19 ar gyllideb 2020/21 y Cyngor. Roedd yr effaith yn gyfuniad o gostau ychwanegol yn ogystal â cholled sylweddol mewn incwm, a chynigiodd strategaeth arfaethedig i ymateb i'r argyfwng a lliniaru'r effaith hwnnw yn y tymor byr i ganolog.

Cafodd y Cabinet wybod y byddai effaith pandemig y Coronafeirws yn sylweddol ac nad oedd busnes fel arfer o bersbectif ariannol yn bosibl os nad oedd y Cyngor yn ymateb i'r argyfwng. Amlinellodd y Cynghorydd Thompson-Hill effaith ariannol a'r ymateb tymor byr a chanolig arfaethedig gan gymryd i ystyriaeth effaith ar lif arian a chyllideb sylfaen. I grynhoi -



- Effeithiau COVID 19 ar Incwm a Gwariant hyd at ddiwedd Mehefin –** Rhagwelwyd cynnydd net o £2.1m mewn gwariant ar gyfer y chwarter at ddiwedd Mehefin (gwariant ychwanegol o £2.8m ochr yn ochr â gostyngiad mewn gwariant o £747,000).

Roedd rhagolygon o golledion incwm o £6.3m ar gyfer yr un cyfnod (yr effaith fwyaf o £2.22m ar Denbighshire Leisure Limited). Mae disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru (LIC) yn darparu cyllid ar gyfer y gwariant ychwanegol ond nid oes cyhoeddiad pendant wedi bod hyn yn hyn ar gyfer yr incwm sydd wedi'i golli. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r broses honno, ac mae disgwyl y bydd cyhoeddiad am gyllido erbyn diwedd mis Mai. Byddai effaith net o £8.3 miliwn fesul chwarter, pe na bai'n cael ei ariannu yn cael effaith andwyol ar gyllid y Cyngor os bydd y cyfyngiadau ar symud yn parhau am gyfnod estynedig. Fe nodwyd y gallai'r ffigurau a ragwelwyd newid ac nad oeddynt yn cynnwys yr effaith ar lefelau hawlwy'r Cynllun Gostwng Treth y Cyngor na thaliadau Treth y Cyngor ei hun.
- Cyfnod Ymateb Tymor Byr –** mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn digwydd gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru, CLILC a LIC er mwyn helpu i ddiffinio graddfa'r broblem a datblygu datrysiadau.

Y strategaeth a argymhellwyd dros y misoedd nesaf oedd adnabod ffordd o sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21 a thu hwnt i gynnwys (1) parhau i weithio mewn partneriaeth i geisio cyflawni cymorth ariannol ar gyfer y gorwariant yn sgil colledion incwm; (2) parhau i adnabod a diffinio effaith ariannol i gyflawni darlun sydd yn gynyddol gywir; (3) adolygu penderfyniadau sydd wedi arwain at ostyngiad mewn incwm, a (4) sicrhau hyblygrwydd ariannol i ddelio ag unrhyw orwariant gweddilliol a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adnabod tanwariant presennol, adolygu gwasanaethau anstatudol, adolygu cronfeydd wrth ben a balansau, ac edrych ar gyfalafu colledion referniw.
- Ymateb Tymor Canolig a Chyfnod Adfer –** byddai hyn yn ddibynnol ar ganlyniadau'r cyfnod adfer.

Gobeithio y gall y Cyngor adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu o'r argyfwng er mwyn manteisio ar gyfleoedd i weithio'n well ac yn fwy gwydn. Bydd hyn yn cynnwys nodi blaenoriaethau newydd, meysydd o arbedion parhaus a meysydd sydd angen buddsoddiad. Mae'r gwaith a fydd yn cael ei gwblhau dros y misoedd i ddod yn cynnwys: llunio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Proses ac Amserlen Gosod Cyllideb Refeniw, ac Adolygu Blaenoriaethau Cyfalaf a Phrosiectau.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo fod y sefyllfa hon yn newid yn gyflym ac ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, bu diweddariad pellach mewn perthynas â'r rheoliadau a threfniadau gweinyddu o ran y cyllid grant oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â chostau uniongyrchol a gofal cymdeithasol ynghyd â phrydau ysgol am ddim a dysgwyr wedi'u hallgau o'r byd digidol. O ran argaeledd cyllid ychwanegol, yr arwyddion oedd y byddai swm sylweddol o arian ar gael yn y gyllideb atodol i'w chyhoeddi ar 27 Mai a fyddai'n llywio cynllunio ariannol yn y dyfodol.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Diolchodd y Cynghorydd Mark Young am y gwaith caled oedd wedi digwydd er mwyn gweinyddu'r cynllun grantiau busnes a sicrhau fod gan elusennau fynediad at gyllid cadernid sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r rhai sydd wedi'u heffeithio.
- Wrth ymateb i gwestiynau dilynol gan y Cynghorydd Mark Young, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Cyllid a Phennaeth Cyllid ac Eiddo y byddai Llywodraeth y DU yn benthyg ar gyfer ystod o resymau ac y byddai unrhyw feysydd o fenthyg oedd yn ymwneud â materion datganoledig yn arwain at fformiwla cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer Cymru a byddai LIC yn penderfynu ble i ddyrannu'r cyllid hwnnw; o ran diddyledrwydd yn y dyfodol, roedd yr adroddiad yn nodi'r pwysau ar gyfer chwarter cyntaf a byddai'r cyllid a gyhoeddwyd yn ddigon am y chwarter cyntaf - gobeithio y bydd cyhoeddiad yfory yn mynd rhywfaint o'r ffordd i orchuddio'r diffyg incwm ar gyfer yr un cyfnod, yn dibynnu ar y canlyniad, roedd diffyg o tua £2m yn debygol, dyna'r rheswm am y mesurau sydd wedi'u manylu yn yr adroddiad. Yn dilyn y sefyllfa ar gyfer chwarter 1 byddai sylw'n troi at chwarter 2 a'r gwaith i lobio am y cyllid hwnnw – os bydd y cyfnod clo yn cael ei lacio rhywfaint ar ôl mis Mehefin, gallai fod yn bosibl i'r ffrydiau incwm ailddechrau. Yn olaf, cadarnhaodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr bod disgwyl i awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith ychwanegol, yn cynnwys y Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ac roedd angen adnoddau sylweddol, cafwyd rhywfaint o ymrwymiad ariannol gan Lywodraeth y DU o ran hynny. Gan fod swyddogion eisoes wedi cael eu hadleoli i gyflawni dyletswyddau eraill a byddai angen pobl eraill pan fyddai gwasanaethau'n ailddechrau, fe fyddai'n her i glustnodi ac adleoli staff at y diben hwnnw, yn enwedig os nad oedd arian ar gael.
- Gofynnodd y Brian Jones am sicrwydd y bydd tanwariant adran priffyrdd ar gyfer 2019/20 yn cael ei gario drosodd ac y byddai gwariant cyfalaf ar gyfer priffyrdd yn 2020/21 yn parhau fel yr oedd. Fe eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid yr arfer arferol o gyflwyno adroddiad y sefyllfa ariannol derfynol i'r Cabinet ym mis Mehefin gan fanylu ar argymhellion i'w cario ymlaen neu orwariant gwasanaeth - mae'n debygol os bydd lithriant mewn gwariant oherwydd Covid 19 yna mae'n debyg y byddai cyllid yn cael ei gario ymlaen. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf byddai dyraniadau bloc ar gyfer buddsoddi mewn asedau, yn cynnwys priffyrdd, yn cario ymlaen ond roedd y dyraniadau hynny'n cael eu cyflwyno'n flynyddol ac felly nid oeddynt wedi'u profi eto – roedd lle i dybio y byddent yn parhau i gymryd fod cyllid ar gael.
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn cydnabod effaith ariannol sylweddol pandemig y Coronafeirws a'r mesurau er mwyn ymateb i'r hynny allai gael eu cynnwys mewn adolygiad o wasanaethau anstatudol – fe dynnodd sylw at werth gwasanaethau anstatudol, mae nifer ohonynt yn effeithio ar les ac ansawdd bywyd pobl, a dywedodd y byddai'n gwrthod unrhyw gynigion i ddiystyru'r gwasanaethau hynny o blaid arbedion a wnaed trwy foderneiddio a ffyrdd eraill o weithio nad oedd yn cael effaith ar ddarparu gwasanaeth. Fe soniodd y Cynghorydd Thompson-Hill am ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor i ddarparu cyllideb gytbwys a'r angen i adnabod pob opsiwn i gyflawni hynny. Fodd bynnag, dyma fyddai'r sefyllfa waethaf bosib yn dibynnu ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Fe ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo fod yr adroddiad yn nodi'r strategaeth i weithio mewn partneriaeth i geisio sicrhau cyllid ychwanegol, ond o

ystyried nad oedd cyllid ar gael byddai angen gweithredu i ddefnyddio un neu fwy o'r mesurau a nodwyd er mwyn llenwi'r bwloch cyllid oedd yn unol â'r broses gyllideb arferol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod wedi dysgu nifer o wersi o ran arferion gweithredol a gweithio ond os na fyddent yn derbyn arian digonol gan Lywodraeth Cymru, yna byddai angen gwneud penderfyniadau anodd.

Fe soniodd yr Arweinydd am yr heriau ac ansicrwydd i awdurdodau lleol yn sgil y pandemig yn cynnwys yr effaith ariannol os nad yw'r colledion ariannol yn cael eu bodloni. Serch hynny, roedd yn falch o sôn am y berthynas gadarnhaol gyda Gweinidogion trwy Gymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru a chyfarfodydd rheolaidd ble roedd cydnabyddiaeth fod gan llywodraeth leol rôl allweddol wrth gyflwyno gwasanaethau ynghyd â'r heriau ariannol roeddynt yn ei wynebu. Roedd amgylchiadau sydd yn newid yn gyflym yn cael effaith ar yr heriau hynny gan greu anawsterau ar gyfer cynllunio ariannol at y dyfodol. Fel rhan o'r broses adfer roedd yn bwysig fod awdurdodau lleol yn ymateb i'r heriau a wynebier a'r cyfleoedd a ddarparwyd i weithio'n wahanol ac fwy effeithlon. Fe soniodd am bwysigrwydd TGCh a Gwasanaethau Democrataidd yn cydweithio i sicrhau fod prosesau democrataidd yn parhau fel y disgwyl a bod yna fwy o gyfleoedd ar gyfer dulliau modern o weithio. Cytunodd yr Arweinydd hefyd fod gwasanaethau anstatudol yn bwysig i breswylwyr a byddai'n aros am ganlyniad cyhoeddiad y gyllideb gan Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r broses cynllunio'r gyllideb.

Ymatebodd Aelodau Arweiniol i faterion a godwyd gan aelodau nad oedd yn rhan o'r Cabinet fel a ganlyn -

- Rhoddodd y Cyngorydd Brian Jones ddiweddariad am agor canolfannau ailgylchu a'r rheswm am yr oedi bychan oherwydd materion technegol. Gofynnodd y Cyngorydd Emrys Wynne am ganllawiau amserol a chllir i aelodau a phreswylwyr cyn aildechrau gwasanaethau a chyfleusterau amrywiol.
- Cadarnhaodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill fod y cyfeiriad yn yr adroddiad at brosiectau adfywio mawr yn cyfeirio at Gynllun Ailddatblygu Ysbyty Gogledd Cymru. Cyfeiriodd hefyd at ddiffiniadau yn y gyfraith o ran dosbarthiad gwasanaethau statudol ac anstatudol ac eglurodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd am ddehongliadau cyfreithiol a goblygiadau o ran hynny, yn enwedig yr elfen lles mewn ymateb i gwestiynau gan y Cyngorydd Gwyneth Kensler ynglŷn â'r hyn roedd rhaid i'r Cyngor eu hystyried ond nad oedd yn wasanaeth statudol fel y cyfryw.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi'r rhagolygon o ran effaith ariannol pandemig Covid-19 ar y Cyngor, a*
- (b) *cymeradwyo fersiwn ddrafft Strategaeth Ariannol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.*

## **7 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Adroddiad Sefyllfa Ariannol Derfynol 2019/20 - Mehefin
- Cytundeb Llywodraethu 2 Bargen Dwf Gogledd Cymru - Tachwedd

***PENDERFYNWYD*** nodi *Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.43am.

**Adroddiad i'r** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod** 30 Mehefin 2020

**Aelod/Swyddog Arweiniol** Hugh Evans, Arweinydd, Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr

**Awdur yr Adroddiad** Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr

**Teitl** Ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r Coronafeirws

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn ag effaith pandemig y coronafeirws ar Sir Ddinbych a gogledd Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am reoli'r broses adfer.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn i'r Cabinet ystyried a chytuno ar elfennau amrywiol o'r ymateb.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad, yn cefnogi'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd ac yn cytuno ar y camau nesaf (gweler isod).

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Ymateb Brys

- 4.1. Ar 16 Mawrth rhoddodd Cyngor Sir Ddinbych ei Dîm Rheoli Argyfwng Strategol (SEMT) ar ddyletswydd i ymateb i bandemig y coronafeirws.
- 4.2. Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio rhag argyfwng cadarn i ddelio'n effeithiol gydag argyfyngau tymor byr fel llyfogydd neu dân a chyda fflw pandemig. Oherwydd natur y coronafeirws roedd yn rhaid addasu'r cynlluniau hyn yn gyflym.

- 4.3. Y Prif Weithredwr sy'n cadeirio'r SEMT ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth, Uwch Swyddog AD y Cyngor a Swyddogion TGCh. Mae'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd hefyd yn rhan o'r cyfarfodydd. Ar ddechrau'r pandemig roedd y SEMT yn cwrdd deirgwaith yr wythnos; sydd wedi lleihau i unwaith yr wythnos erbyn hyn. Mae'r cyfarfodydd wedi'u cefnogi gan swyddog o'r Tîm Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol a swyddog i gadw cofnod o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu.
- 4.4. Gyda'r holl gyfarfodydd ffurfiol yr Aelodau wedi'u hatal, mae'r SEMT wedi bod yn adrodd yn ôl i'r Cabinet sy'n cwrdd yn anffurfiol. Mae penderfyniadau wedi'u gwneud yn bennaf gan Benaethiaid Gwasanaeth neu Aelodau Arweiniol dan bwerau wedi'u dirprwyo iddynt ac mewn ymgynghoriad gyda'r Cabinet pan fo'n briodol.
- 4.5. Mae cylch gorchwyl y SEMT yn atodiad 1. Yn fras, mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion strategol a gweithredol mewn perthynas â nifer o themâu allweddol; mae'r themâu cychwynnol, sydd wedi esblygu wrth i'r sefyllfa newid, wedi'u nodi yn atodiad 2.
- 4.6. Y dasg gyntaf i'r SEMT oedd cau neu ailfodelu gwasanaethau yn ddiogel yn sgil y cyfyngiadau ar symud. Ddiwedd mis Mawrth caewyd yr holl wasanaethau nad oeddynt yn hanfodol, gan drosglwyddo nifer o'r staff i gefnogi gwasanaethau hanfodol neu i ddarparu gwasanaethau newydd a oedd yn berthnasol i Covid-19.
- 4.7. Mae absenoldebau oherwydd salwch wedi parhau'n isel ymhlith staff ers dechrau'r pandemig. Mae nifer yr achosion o Covid-19 wedi bod yn weddol isel ymhlith ein grŵp staff. Fodd bynnag, mae'r cyfarwyddyd i bob aelod o staff gyda chyflyrau iechyd penodol hunan-ynysu, sef y peth cywir i'w wneud, wedi rhoi pwysau ar rai gwasanaethau ac achosi prinder staff, yn enwedig yn ein gwasanaethau gwastraff.
- 4.8. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i her Covid-19. Mae gwasanaethau a dulliau darparu newydd ac arloesol wedi'u datblygu, mae penderfyniadau wedi'u gwneud yn gyflym ac mae staff ac undebau llafur yn cydweithio ac yn hyblyg wrth i ni weithredu'r camau i ddiogelu ein dinasyddion.
- 4.9. Mae'r camau gweithredu a'n hymateb arloesol yn cynnwys:

- Sefydlu ysgolion 'hyb' ar gyfer plant gweithwyr allweddol
- Gwneud taliadau uniongyrchol i bawb sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Dosbarthu PPE ar draws y sir, gan gynnwys i gartrefi gofal a darparwyr preifat
- Ffonio pawb sy'n gorfod gwarchod eu hunain; a chysylltu â phreswylwyr dros 70 oed i gynnig cymorth gyda siopa a thasgau eraill, neu i gael sgwrs
- Gweithio gyda'r sector gwirfoddol i gyfeirio preswylwyr diamddiffyn at wasanaethau cymunedol
- Prosesu a thalu grantiau i fusnesau bach
- Cysylltu â busnesau, darparu cyngor a chyfeirio pobl at gymorth sydd ar gael yng Nghymru
- Sefydlu 'swyddfa adleoli' sydd wedi symud dros 200 aelod o staff i rolau newydd, gan gynnwys rolau gofal cymdeithasol rheng flaen, ymateb galw a chefnogaeth gymunedol, gyrrwyr a phrofi ac olrhain cysylltiadau
- Cyfathrebu'n rhagweithiol drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg
- Cefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty 7 diwrnod yr wythnos
- Sefydlu 'cell' profi, tracio ac olrhain i ddarparu gwasanaeth olrhain cysylltiadau yn Sir Ddinbych

4.10. Yn rhanbarthol, mae'r ymateb i'r argyfwng wedi'i oruchwylio gan y Grŵp Cydgysylltu Strategol sydd wedi'i gadeirio gan yr heddlu ac sy'n cynnwys Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Iechyd y Cyhoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, BIPBC, gwasanaethau golau glas ac asiantaethau partner allweddol eraill. Ar ran y rhanbarth, mae'r grŵp hwn wedi cydlynu:

- Rhannu gwybodaeth
- Sefydlu tri 'ysbyty maes' sydd wrth gefn os digwydd i ni gael ail 'don' o Covid-19 ac i gynorthwyo gyda phwysau eraill
- Dull rhanbarthol ar gyfer profi, tracio ac olrhain
- Goruchwylio a chydlynu PPE

4.11. Ar y cyfan, mae'r trefniadau lleol a rhanbarthol wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod rhyfeddol a heriol hwn.

## Adfer

4.12. Mae'r rhan fwyaf o argyfyngau yn symud o gam 'ymateb' byr i gam 'adfer' hirach. Mae natur pandemig Covid-19 yn golygu bod yr 'ymateb' yn debygol o bara am beth amser i ddod. Serch hynny, bydd arnom ni angen dechrau'r broses 'adfer' drwy ailagor gwasanaethau yn ddiogel, cydweithio ar lefel ranbarthol gyda phartneriaid, cynllunio ar gyfer y dyfodol a chanolbwyntio ar sut y gall ein sefydliadau, ein busnesau a'n cymunedau ddechrau ailgodi ar eu traed yn dilyn effeithiau Covid-19.

4.13. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau ei drefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer adfer, gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn trafod materion gweithredol - a'r gwaith unwaith eto yn canolbwyntio ar nifer o 'themâu' allweddol, pob un gyda swyddog arweiniol ac aelod arweiniol penodol. Mae'r cynigion llywodraethu yn atodiad 3, ond mae'r materion allweddol i'r Cyngor eu hystyried yn cynnwys:

- Sut i ailgychwyn gwasanaethau wyneb yn wyneb ac ailagor adeiladau'r Cyngor yn ddiogel yn y tymor byr a chanolig
- Cynnal lles ac iechyd a diogelwch staff, a symud staff yn ôl i'w rolau gwreiddiol
- Ailgychwyn gweithrediadau democrataidd y Cyngor drwy weithio o bell
- Rheoli'r diffyg tebygol yn y gyllideb o ganlyniad i gostau ychwanegol a cholli incwm, a chynllunio cyllidebau blynyddoedd i ddod
- Delio gyda gwaith cynnal a chadw adeiladau, stoc dai, priffyrdd a phontydd sydd wedi cronni
- Cefnogi busnesau Sir Ddinbych ac ailgychwyn y sector twristiaeth
- Cefnogi ein cymunedau
- Ailagor ysgolion fesul cam, gan gynnwys cludiant i'r ysgol a phlant gydag anghenion arbennig
- Gweithio gyda Denbighshire Leisure (DLL) i reoli effaith ariannol a gweithredol Covid-19 ar y cwmni
- Ail-werthuso ein prosiectau a'n blaenoriaethau corfforaethol, o ystyried y sefyllfa ariannol, blaenoriaethau'r cyhoedd a'r cwtogi sydd wedi bod ar adnoddau yn sgil rheoli'r ymateb a'r broses adfer yn dilyn y pandemig
- Ymgorffori gwersi sydd wedi'u dysgu a ffyrdd newydd o weithio yng ngwaith y Cyngor i'r dyfodol



4.14. Yn rhanbarthol, bydd y broses adfer yn cael ei harwain gan Grŵp Cydlynu Adferiad amlasiantaeth. Gan adlewyrchu'r sefyllfa o fewn y Cyngor, bydd yr ymdrech adfer rhanbarthol yn gorfod rhedeg ochr yn ochr â'r ymateb parhaus. Mae'r themâu adfer rhanbarthol yn cynnwys:

- Adfer busnesau a'r economi
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Cefnogaeth a chadernid cymunedol
- Iechyd y cyhoedd a thracio, olrhain a diogelu

4.15 Dylid nodi y bydd angen gwneud y rhaglenni ymateb a'r broses adfer yn brif ffocws yng ngwaith y Cyngor am o leiaf 12 mis. Ar ben hynny, ni fydd llawer o allu i ddatblygu mentrau newydd yn ddiogel.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol a pharhaol ar wasanaethau, preswylwyr a busnesau Sir Ddinbych. Bydd ymateb effeithiol i ddelio â'r pandemig a chynllun adfer wedi'i roi ar waith yn dda yn hollbwysig i ddiogelu iechyd a ffyniant y sir.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae effaith ariannol Covid-19 ar y Cyngor eisoes wedi bod yn un sylweddol, gyda cholli ffrydiau incwm mawr a chostau ychwanegol.

6.2. Mae'n bosibl y bydd rhagor o gostau yn gysylltiedig â'r camau adfer nad ydynt eto wedi'u cadarnhau. Mae graddfa unrhyw incwm pellach y byddwn yn ei golli yn dibynnu pryd fydd y cyfnod clo yn dod i ben, awch dinasyddion i ddychwelyd i ddefnyddio gwasanaethau a chyflwr cyffredinol economi Sir Ddinbych.

6.3. Hyd y gellir ei ragweld, bydd yn rhaid canolbwyntio adnoddau cyfunol y Cyngor, gwasanaethau rheng flaen a chefn swyddfa, ar y darn mawr o waith hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Dim ei angen.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Yn niffyg cyfarfodydd craffu ffurfiol, mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi derbyn gwybodaeth ac wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y materion a nodir yn yr adroddiad hwn.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Wrth gwrs, mae'r ffocws ar hyn o bryd ar yr ymateb ariannol a'r broses adfer yn sgil pandemig Covid-19. Er bod y pwysau yn sylweddol iawn, mae'r Cyngor yn dechrau'r cyfnod hwn gyda'r manteision canlynol:

- Enw da iawn am reoli cyllid ac ymateb i dros 10 mlynedd o ostyngiadau yn y gyllideb mewn termau real. Dylai'r systemau a'r prosesau sydd ar waith helpu Cyngor Sir Ddinbych yn ei ymateb
- Cronfeydd ariannol wrth gefn a balansau cymharol iach
- Roedd y setliad a'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2020/21 yn caniatáu i'r Cyngor fynd i'r afael â llawer o bwysau o fewn Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Gwastraff, Cludiant Ysgol, Addysg ac Ysgolion. Nid yw hyn yn golygu nad oes pwysau busnes fel arfer parhaus, ond mae'n golygu ein bod mewn sefyllfa well na'r blynyddoedd blaenorol

Bydd yr Adroddid Cyllideb rheolaidd i'r Cabinet yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a darperir diweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd anffurfiol o'r Cabinet.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae Covid-19 wedi ac yn parhau i achosi risg sylweddol i iechyd a lles ein dinasyddion, staff, darpariaeth ein gwasanaethau ac i economi'r sir.

10.2. Mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn risg sylweddol i'r Cyngor. Mae rhywfaint o gyllid wedi bod ar gael i wneud iawn am ddiffygion ond nid yw'r sefyllfa gyfan yn glir o bell ffordd.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Adran 2 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

**Denbighshire County Council**  
**Coronavirus (Covid 19) SEMT**  
**Terms of Reference**  
**Version 1 30 March 2020**

**Introduction:**

The purpose the Coronavirus (Covid 19) SEMT is to provide a regular meeting of the Council's Senior Leadership Team, with appropriate lead Officer and if necessary Lead Member support, to discuss relevant emergency planning, business continuity and all other related work-streams in order to identify and prioritise our strategic and tactical approach to the emergency.

**Aims:**

To agree and record Decisions and Actions to ensure that DCC responds in the most appropriate way to the emergency.

To ensure SEMT is aware of the national and regional context to the emergency and to prepare DCC representatives at national and regional meetings so they are communicating DCC's position/opinion

**Structure:**

Membership will be (16 No.)

All of SLT (12 No.)

Eleri Evans (Organiser & Loggist)

Catrin Roberts (HR)

Barry Eaton (ICT)

Madeleine Henri-Joy (Regional Emergency Planning)

SEMT will meet 3 times a week (Mon am, Wed pm & Fri am).

The meeting will be "held" in County Hall with the majority of participants expected to "dial in".

The meetings will be Chaired by the CEO. If the CEO is unavailable one of the 2 Corporate Directors will Chair.

Eleri Evans will act at the meetings Loggist, producing Minutes, Action Log and Decision Log for circulation after each meeting. These will be by CET.

Eleri Evans will need deputies. These will be discussed and a decision will be reported to SEMT in due course.

The meetings are currently in the diary until 15 June.

**Sub Groups:**

SEMT will need to establish Sub Groups. No Sub Group will be established until agreed by SEMT.

Sub Group should normally be Chaired by an allocated SEMT Member who will lead the work of the Sub Group and report back to SEMT as required.



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Report to</b>	Group Leaders
<b>Date of meeting</b>	28 May 2020
<b>Lead Member / Officer</b>	Cllr Richard Mainon /Judith Greenhalgh
<b>Report author</b>	Graham Boase
<b>Title</b>	Covid19 Recovery; Interim arrangements for updating and involving Members

## 1. What is the report about?

- 1.1. Proposed interim arrangements for discussion on how Cabinet and SLT intend to keep the wider Council Membership updated regarding the Recovery response to Covid19

## 2. What is the reason for making this report?

- 2.1. For Group Leaders to consider and agree the proposed interim arrangements for keeping Members updated on the Council's Recovery response to Covid19.

## 3. What are the Recommendations?

- 3.1. Group Leaders support the approach as laid out in this Report and attached Appendix 1.

## 4. Report details

4.1 To date the main focus of SLT and Cabinet has been on responding to the Covid19 emergency. Whilst dealing with the emergency response is still important, we now need to prioritise developing and implementing the Council's Covid19 Recovery Plan.

4.2 SLT and Cabinet have considered the broad "themes" that our Recovery Plan should include, along with which members of SLT/Cabinet might lead on those

